Llywodraeth y DU

# Profi System Rhybuddion Argyfwng y DU

## Bydd Llywodraeth y DU yn profi'r System Rhybuddion Argyfwng ar 7 Medi 2025.



Mae'r System Rhybuddion Argyfwng yn eich rhybuddio os oes perygl i fywyd gerllaw.




Mewn argyfwng, bydd eich ffôn neu dabled yn cael rhybudd gyda chyngor am sut i gadw'n ddiogel.

Medi
7

Bydd y prawf yn digwydd am **3yh ar ddydd Sul, 7 Medi 2025.**

# Beth fydd yn digwydd




Bydd pob ffôn symudol neu dabled sy'n defnyddio 4G neu 5G yn cael rhybudd.




Does dim rhaid i chi wneud dim. Prawf i wneud yn siŵr bod y system yn gweithio ydy hwn.



Efallai y bydd eich ffôn symudol neu eich tabled yn:

- gwneud sŵn uchel, hyd yn oed os ydy eich ffôn neu dabled ar osodiad tawel
- dirgrynu
- darllen neges yn uchel




Bydd y rhybudd prawf yn para am tua 10 eiliad.



Bydd y neges ar eich sgrin yn dweud mai prawf ydy'r rhybudd.



Bydd y neges ar eich sgrin yn dweud mai prawf ydy'r rhybudd.





Ewch i gov.uk/alerts i gael rhagor o wybodaeth ac i weld ydy’r rhybudd yn un go iawn.



Dydy’r llywodraeth ddim angen eich rhif ffôn nac unrhyw fanylion eraill er mwyn anfon y rhybudd atoch.



Does dim angen i’ch ffôn symudol neu dabled ddefnyddio data symudol na WiFi er mwyn cael rhybudd.



Os byddwch chi’n gyrru cerbyd pan fydd y rhybudd yn cyrraedd eich ffôn, dylech chi ddal ati i yrru. Ddylech chi ddim codi eich ffôn.

# Pam fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal y prawf



Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr fod y system rhybuddion argyfwng yn gweithio. Yn y dyfodol, efallai bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r system rhybuddion i roi gwybod i chi am y canlynol:



- llifogydd



- tanau



- tywydd gwael

---



Fyddan nhw ddim yn anfon rhybuddion atoch chi'n aml. Mae'r system yn eich helpu chi i gadw'n ddiogel.

---



Os dydych chi ddim eisiau cael rhybuddion argyfwng yn y dyfodol, mae angen i chi newid gosodiadau eich ffôn. Mae gwybodaeth am sut i droi'r rhybuddion i ffwrdd ar gael ar y ddolen hon: gov.uk/alerts/opting-out